



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Gwerthusiad Economaidd
o Fwyd a Diod Cymru – 2023

Y Sector Sylfaen Bwyd

Mae Sector Sylfaen Bwyd Cymru'n cwmpasu busnesau sy'n cynhyrchu, prosesu, gweithgynhyrchu a chyfanwerthu nwyddau bwyd a diod, gan gynnwys busnesau eilaidd sydd eu hangen yn y diwydiant bwyd a diod¹.

Y sector Sylfaen Bwyd yw prif ffocws gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion Gweledigaeth Strategol Diwydiant Bwyd a Diod Cymru².


Yn 2023 fe welodd y sector gynnydd ar 2022, gyda throsiant yn cynyddu £1.2bn (15%) o £8.1bn i £9.3bn. Daeth y cynnydd hwn o is-sectorau dethol fel Arlwyyo a Diodydd, tra bod eraill, yn enwedig Ffrwythau a Llysiau, wedi gweld gostyngiad mewn trosiant. Rydym ni'n trafod yr is-sectorau hyn ymhellach yn nes ymlaen yn y gwerthusiad hwn. Dros y tymor hwy, mae'r sector wedi gweld twf mewn trosiant, gan gynyddu £1.1bn (13%) o £8.2bn yn 2019. Fe wnaeth Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) Sector Sylfaen Bwyd Cymru gynyddu 10% rhwng 2021 a 2022 (y data diweddaraf sydd ar gael), o £2.1bn i £2.4bn.

Roedd 1,687 o unedau busnes lleol yn y sector yn 2023, cynnydd o 118 o unedau flwyddyn ar ôl blwyddyn a chynnydd pellach o 283 ers 2019. Roedd 75% o'r unedau busnes yn y sector wedi'u categorio fel rhai Micro yn 2023, 1% yn fwy nag yn 2022. Mae hyn yn debyg i wledydd eraill y DU, gyda'r ffigur yn 76% yn Lloegr, 72% yng Ngogledd Iwerddon, a 67% yn yr Alban.

Ar draws gweddill yr unedau busnes yng Nghymru ar gyfer y sector, roedd 17% yn rhai bach, 7% yn rhai canolig a 2% yn rhai mawr. Roedd gan 89 (6%) o fusnesau yng Nghymru yn y sector drosiant o £10m a mwy yn 2023.

Roedd y sector yn cyflogi 37,500 o bobl yn 2022, cynnydd o 1% o gymharu â 37,000 yn 2021. Roedd 90% o weithwyr y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Cyflog canolrifol y sector yng Nghymru oedd £26,543 yn 2023, cynnydd o £935 (4%) ers 2022. Ar draws yr un cyfnod, cynyddodd enillion canolrifol y DU £2,164 (8%), o £27,083 i £29,247. Roedd 80% o'r holl weithwyr yn Sector Sylfaen Bwyd Cymru yn ennill naill ai'r Cyflog Byw Gwirioneddol neu fwy yn 2023, gostyngiad o'r 86% yn 2022.

Trosiant yn ôl Sector 2019–2023, (£ miliynau)




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR).

1. Fel cynhyrchu cynhyrchion plastig a gwyrdd a ddefnyddir yn y system fwyd. Mae dadansoddiad llawn o gategorïau'r sector sylfaen ar gael yn [The Food and Drink Foundation Sector Definition](#).
2. Mae Gweledigaeth Strategol Bwyd a Diod Cymru ar gael yn [Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod yn 2021: Adeiladu ar ein llwyddiant](#).

Mae nifer yr unedau busnes yn y sector wedi cynyddu 118 flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda'r mwyafrif (106) yn ficrofusnesau (llai na 10 o weithwyr). Yn y tymor hwy, mae 283 yn fwy o unedau busnes yn y sector, gyda 266 o unedau microfusnes newydd, 19 o fusnesau bach newydd (10 - 49 o weithwyr), ond 0 uned busnes mawr (250+ o weithwyr) newydd a 2 yn llai o unedau busnes canolig (50–240 o weithwyr).

Yn 2023, roedd 30% o weithwyr y sector yn gweithio i fusnesau canolig eu maint, 49% yn gweithio i fusnesau mawr, gyda chwmnïau micro a bach â chyfran cyflogaeth llawer is o'r farchnad, sef dim ond 21%.


Niferoedd Unedau Lleol y Sector Sylfaen Bwyd yn ôl is-sector, 2023



Yr is-sector a welodd y twf mwyaf mewn unedau busnes rhwng 2019 a 2023 oedd Cyfanwerthu Bwyd, gyda 43 uned newydd. Yr is-sector hwn oedd â'r twf mwyaf mewn unedau busnes micro (37) a chanolig (1) o blith yr holl is-sectorau.

Yn 2023, roedd gan 77% (1,112) o fusnesau Cymru yn y sector sylfaen bwyd drosiant o lai na £1m. Roedd 77% o'r busnesau hyn yn cyfrif am 15% o weithwyr a 4% o'r trosiant yn y sector, ar gyfer busnesau sydd â'u pencadlys yng Nghymru. Roedd gan 6% (89) o fusnesau Cymru yn y sector drosiant gwerth mwy na £10m. Roedd y busnesau hyn yn cyfrif am 66% o weithwyr ac 80% o drosiant. Mae dadansoddiad llawn o fusnesau, gweithwyr a throsiant yn ôl band trosiant ar gael yn Atodiad A.

Trosiant y Sector Sylfaen Bwyd yn ôl is-sector (£ miliynau), 2023



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR)

Tabl 1: Busnesau sector sylfaen bwyd yn ôl maint

Maint y Busnes	Unedau Busnes 2023	% Cyfanswm yr Unedau	Trosiant 2023 (£m)	% Cyfanswm y Trosiant	Gweithwyr 2023 (mil)	% Cyfanswm Gweithwyr
Mawr (250+)	27	1.7%	5,053	54.4%	17.6	49.3%
Canolig (50–249)	117	7.5%	2,711	29.2%	10.6	29.7%
Bach (10–49)	271	17.3%	1,006	10.8%	3.1	8.7%
Micro (0–9)	1,154	73.6%	525	5.6%	4.4	12.3%
Cyfanswm	1,569	100.0%	9,295	100.0%	35.7	100.0%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR). Daw'r ffigurau cyflogaeth yn y tabl hwn o'r IDBR, yn wahanol i'r ffigurau cyflogaeth a drafodwyd yn ystod adrannau eraill yr adroddiad hwn, sy'n dod o o'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES). Argymhellir defnyddio data BRES yn hytrach na data IDBR wrth drafod ffigurau cyflogaeth, fodd bynnag at ddibenion cymharu ffigurau cyflogaeth ar draws busnesau o feintiau gwahanol, defnyddiwyd data cyflogaeth IDBR. Nid yw'r ffigurau cyflogaeth yn y tabl uchod yn cynnwys cyfran arwyddocaol o lafur amaethyddol. Mae'r categori 'Sectorau sy'n Weddill' yn cynnwys Bwyd Parod ar gyfer Anifeiliaid, Ffrwythau a Llysiau, a Physgod a Chramenogion.

Y Gadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod


Gwelwyd twf yng nghadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru yn 2023 hefyd, mae'r sector hwn yn cynnwys gweithgynhyrchu a phecynnu cysylltiedig, amaethyddiaeth a physgota, manwerthu a chyfanwerthu, ac arlwyyo dibreswyl. Roedd trosiant busnesau'r sector werth £24.6bn yn 2023, cynnydd blwyddyn i flwyddyn o 10% o'r £22.3bn yn 2022. Cynyddodd allforion yn 2023 o'i gymharu â 2022, gan godi o £797m i £813m, cynnydd o 25% (£16m). Cynyddodd Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) cadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru 13% rhwng 2021 a 2022 (y data diweddaraf sydd ar gael), o £6.2bn i £7bn.

Bu cynnydd bach o 1% yn nifer yr unedau busnes yn y sector, o 28,434 yn 2022 i 28,768 yn 2023. Roedd 85% o'r unedau busnes o fewn y sector yn y categori micro yn 2023, 1% yn llai na 2022. O'i gymharu â gwledydd eraill y DU, Cymru oedd â'r gyfran ail uchaf o ficrofusnesau yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod, gyda'r ffigur yn 90% yng Ngogledd Iwerddon, 79% yn yr Alban, a 78% yn Lloegr.

Yn 2022 roedd y gadwyn gyflenwi'n cyflogi 228,500 o unigolion yng Nghymru – gostyngiad o 2% ers 2021 – gan gyfrif am 17% o holl weithlu'r genedl. Roedd 46% o weithwyr y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Enillion blyneddol canolrifol yn y sector ar gyfer 2023 oedd £20,687, gan gynyddu 13% o 2022, y gwerth uchaf mewn hanes diweddar. Y cyflog canolrifol yn y DU ar gyfer y sector oedd £20,565 yn 2023, cynnydd o 7% ar y flwyddyn flaenorol. Enillodd 65% o weithwyr yng nghadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru y cyflog byw gwirioneddol yn 2023, i fyny o 64% yn 2022.

Parhaodd sector bwyd a diod o Gymru i ehangu ei gynhyrchion arobryn, gan ennill 242 o wobrau Great Taste yn 2023, cynnydd o 41 o'r 201 yn 2022. Roedd gan Gymru 20 enw bwyd gwarchodedig ym mis Mehefin 2024, gyda cheisiadau am 4 arall ar y gweill. Mae hyn yr un fath ag yn 2022.

Nifer y Gweithwyr yn Sectorau Allweddol y Gadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod, 2022



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES).

Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod

Gwelodd sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod Cymru yn 2023 gynnydd o £880.1m (17%) mewn trosiant o 2022, gan gynyddu o £5.1bn i £6.0bn. Roedd Gwerth Ychwanegol Gros ar gyfer y sector yn £1.7bn yn 2022, cynnydd o 10% o £1.5bn yn 2021.

Roedd y sector yn cyflogi 26,000 yng Nghymru yn 2022, i fyny 8% o'r 24,000 yn 2021. Roedd 88% o'r gweithwyr yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Y cyflog canolrifol ar gyfer y sector yn 2023 oedd £25,144, cynnydd o 5% o £24,003 y flwyddyn flaenorol. Yn 2023 roedd 77% o unigolion yn y sector yn ennill y cyflog byw, gostyngiad o'r 81% yn 2022.


Roedd 681 o unedau busnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn 2023, i fyny 13 o 668 yn 2022.

Roedd 71% o'r 681 o unedau busnesau wedi'u categorio fel rhai micro (16% yn fach, 10% yn ganolig, 4% yn fawr), sy'n debyg i Loegr gyda 70%, tra bod gan Ogledd Iwerddon 65% a'r Alban 62%. Roedd 47 (8%) o fusnesau yng Nghymru yn y sector â throsiant o £10m a mwy yn 2023.

Yn 2023 roedd cyfradd busnesau newydd y sector yn 13%, gydag 81 o fusnesau newydd, i lawr o'r 16% yn 2022. Y cyfraddau goroesi 5 mlynedd ar gyfer busnesau yn y sector rhwng 2018 a 2023 oedd 45%, sydd yr un faint â chyfradd 2017–2022.

Dros y tymor hwy, mae'r sector wedi gweld twf cryf; cynyddodd trosiant £776m (15%) o £5.24bn yn 2019 i £6.0bn yn 2023, a gostyngodd GVA 4% rhwng 2019 a 2022 (o £1.8bn i £1.7bn). Yn ogystal, cynyddodd y cyflog canolrifol £3,573 (17%) rhwng 2019 a 2023, gan gynyddu o £21,571 i £25,144, mae hyn yn llai na chynnydd y DU o £4,688 (19%) dros yr un cyfnod.

Trosiant yn ôl is-sector 2019–2023, (£ miliynau)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau (IDBR).

Cig a Chynhyrchion Cig

Trosiant sector Cig a Chynhyrchion Cig Cymru yn 2023 oedd £1.7bn, cynnydd sylweddol o 19% ers 2022.

Roedd y sector yn cyflogi 5,500 o unigolion yn 2022, i lawr 8% o 6,000 yn 2021. Roedd 86% o'r unigolion a gyflogir yn y sector yn 2022 yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Y cyflog canolrifol ar gyfer y sector yn 2023 oedd £24,036, cynnydd o 6% o'r flwyddyn flaenorol.

Roedd 66 o unedau busnes yn y sector yn 2023, cynnydd bach o'i gymharu â'r 64 yn 2022. Hyd at 30 Mawrth 2024 nifer y sefydliadau a gymeradwywyd ar gyfer trin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion cig oedd 38 ar gyfer cig coch a 21 ar gyfer dofednod. Mae hyn fymryn yn is o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, lle'r oedd 42 ar gyfer cig coch a 22 ar gyfer dofednod.

Cyfanswm gwerth allforion cig a chynhyrchion cig yn 2023 oedd £280m. Mae hyn yn cynnwys £79m o allforion anifeiliaid byw, a £201m o gynhyrchion cig. Cynyddodd y ffigur hwn 6% o'r flwyddyn flaenorol, pan oedd gwerth y sector yn £265m. Yn unigol, cynyddodd allforion anifeiliaid byw £11m, a chynyddodd cynnyrch cig £4m flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Yn ôl Hybu Cig Cymru (HCC), yn 2023 roedd allforion cig defaid o Gymru yn werth tua £188m, ac yn werth cyfanswm o £191m ochr yn ochr ag allforion offal. O ran gwerth, aeth tua 96% (£179m) o allforion cig defaid i'r UE. Amcangyfrifwyd bod allforion cig eidion Cymru yn 2023 yn werth £69m, a chafodd tua 92% (£63m) ohonynt eu hallforio i'r UE.

Cynyddodd gwariant manwerthu ar gig yng Nghymru 7% yn 2023 o'i gymharu â 2022, i werth o £988m. Mewn cymhariaeth, bu cynnydd o 9% ar lefel Prydain.

Ym maes manwerthu, prydau parod o'r oergell oedd â'r gyfran uchaf o'r categorïau cig o hyd, gyda'r gyfran yn cynyddu o 17% i 18%. Y categorïau nesaf yw cigoedd wedi'u coginio ac yna dofednod ffres. Mae'r tri hyn gyda'i gilydd yn cyfrif am 45% o'r gwariant manwerthu ar gig.



— ” —
Trosiant sector Cig a Chynhyrchion
Cig Cymru yn 2023 oedd £1.7bn,
cynnydd sylweddol o 19% ers 2022.

— “ —

Diodydd

Roedd gan y sector diodydd yng Nghymru drosiant o £1.3bn yn 2023, cynnydd sylweddol o 40% o'r £940m yn y flwyddyn flaenorol. Er bod y newid flwyddyn ar ôl blwyddyn yn sylweddol, roedd gwerth 2022 yn sylweddol is na'r blynnyddoedd blaenorol, sy'n gwneud i'r cynnydd ymddangos hyd yn oed yn fwy.

Roedd y sector yn cyflogi 2,000 o unigolion yn 2022, i lawr 11% o 2,250 yn 2021. Roedd 88% o'r gweithwyr yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE). Y cyflog canolrifol ar gyfer y sector oedd £33,073 yn 2020, gostyngiad o 4% dros y flwyddyn flaenorol. Y cyflog canolrifol yn y DU ar gyfer y sector yn 2023 oedd £37,459, cynnydd o 8% o'r flwyddyn flaenorol. Does dim modd datgelu ffigurau cyflog canolrifol Cymru ar gyfer 2023, 2022 a 2021 gan fod maint y sampl yn isel.

Roedd 155 o unedau busnes yn y sector yn 2023, cynnydd bach o'i gymharu â 151 yn 2022. Roedd 80% o'r unedau busnes yn y sector yn y categori micro, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar ddiodydd yng Nghymru oedd £1.2bn yn 2023, cynnydd o 1% o'i gymharu â 2022. Mewn cymhariaeth, bu cynnydd o 2% flwyddyn ar ôl blwyddyn ar lefel Prydain.

Gwerthiant cwrw, gwinoedd a gwirodydd oedd yn gyfrifol am oddeutu tair rhan o bump (61%) o wariant manwerthu Cymru, a gwin oedd â'r gyfran fwyaf o'r tri gyda 27%. Diodydd 'un-siot' oer welodd y cynnydd canrannol mwyaf yn y sector dros y flwyddyn, ond mae'r categori hwn yn parhau'n rhan fach o'r farchnad.



— ” —

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar ddiodydd yng Nghymru oedd £1.2bn yn 2023, cynnydd o 1% o'i gymharu â 2022

— “ —

Cynhyrchion Bwyd Eraill

Mae'r sector Cynhyrchion Bwyd Eraill yn cynnwys busnesau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau gweithgynhyrchu canlynol: siwgr, coco, siocled, melysion, te, coffi a gweithgynhyrchu coffi amgen, pupur a halen a sesnin, prydau parod, a pharatoi bwyd homogenaidd a bwyd deietegol³.

Roedd trosiant y sector Cynhyrchion Bwyd Eraill yn £839m yn 2023, i lawr 4% o £871m yn 2022.

Roedd y sector yn cyflogi 7,500 o unigolion yn 2022, cynnydd o 15% o'i gymharu â 6,500 yn 2021. Roedd 93% o'r rhai a gyflogir yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn 2022. Y cyflog canolrifol ar gyfer y sector yn 2023 oedd £26,771, gostyngiad o 1% dros y flwyddyn flaenorol. Dros yr un cyfnod, cynyddodd cyflog canolrifol y DU ar gyfer y sector 4% o £26,204 i £27,158.

Roedd 127 o unedau busnes yn y sector yn 2023, cynnydd o'r 125 uned yn 2022. Roedd 69% o'r busnesau yn y categori micro, cynnydd o 3% o'r 66% yn 2022.

Cynyddodd gwariant manwerthu Cymru ar Felysion yn y Cartref 14% rhwng 2022 a 2023, gan gynyddu o £244m i £278m. Bu 5% yn fwy o wariant ar De a Choffi ym marchnad fanwerthu Cymru, gan gynyddu o £106m yn 2022 i £111m yn 2023. Cynyddodd y gwariant ar Sawsiau Bwrdd, Pupur a Halen a Phicls o flwyddyn i flwyddyn 13%, o £59m i £66m. Ar draws gwledydd Prydain, cynyddodd gwariant manwerthu ar Felysion yn y Cartref 13%, cynyddodd sawsiau bwrdd, pupur a halen a phicls 15%, a chynyddodd te a choffi 7%.

Cynyddodd gwariant manwerthu ar Brydau Parod Oer yng Nghymru o 2022 i 2023 12%, o £159m i £178m. Gwelodd yr un categori gynnydd o 8% ar lefel Prydain.



— ” —

Roedd y sector yn cyflogi 7,500 o unigolion yn 2022, cynnydd o 15% o'i gymharu â 6,500 yn 2021.

— “ —

3. Mae enghreifftiau o baratoi bwyd homogenaidd a bwyd deietegol yn cynnwys fformiwla babanod, llaeth dilynol, bwydydd heb glwten, bwydydd sodiwm isel a bwydydd diabetig.

Cynhyrchion Llaeth ac Wyau

Roedd gan sector llaeth Cymru drosiant o £524m yn 2023, gan gynyddu 25% o £418m y flwyddyn flaenorol. Rhwng 2020 a 2022, gwelodd y sector llaeth newidiadau bach mewn trosiant flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae hyn o'i gymharu â blynyddoedd cyn 2020, pan welwyd amrywiadau mawr bob blwyddyn.

Yn 2022, roedd y sector yn cyflogi 1,500 o unigolion, cynnydd o 20% ar y 1250 yn 2021. Roedd 83% o'r rhai a gyflogir yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE), gostyngiad o bron pob un ohonynt y flwyddyn flaenorol. Y cyflog canolrifol ar gyfer y sector oedd £25,227 yn 2023, gostyngiad o 2% o werth 2022 sef £25,820. Y cyflog canolrifol yn y DU oedd £32,345 yn 2023, i fyny 11% o £29,130 yn 2022.

Yn 2021 roedd 63 o unedau busnes yn y sector, sef yr un nifer â'r flwyddyn flaenorol. Roedd 63% o'r unedau busnes hyn yn y categori micro, sydd 5% yn llai nag yn 2022. Roedd 22% yn perthyn i'r categori bach, sy'n cyflogi 10–49 o unigolion – cynnydd o 4% ar y 18% yn 2022.

Hyd at 30 Mawrth 2023, roedd 104 o sefydliadau wedi'u cymeradwyo i brosesu wyau neu gynhyrchion wyau, i lawr o'r 106 y flwyddyn flaenorol, a 101 o sefydliadau wedi'u cymeradwyo i brosesu llaeth amrwd neu gynhyrchion llaeth, gan gynyddu o 99 yn 2022.

Cynyddodd nifer y gwartheg llaeth (benyw 2+ â llo) yn 2022 i 254,700, gostyngiad o'r 255,900 y flwyddyn flaenorol. Nifer yr ieir a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu wyau oedd 4.5m yn 2023, sydd 30% yn uwch na'r 3.4m yn 2022.

Roedd gwariant manwerthu ar gynnyrch llaeth yn 2023 yn £613m, cynnydd o 9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd gwariant manwerthu Prydain ar gyfer cynhyrchion llaeth hefyd yn 2023 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan dyfu 12%. Llaeth oedd â'r gyfran uchaf o wariant yn y categori cynnyrch llaeth o hyd gyda 37%, gyda 'llaeth cyflasedig wedi'i oeri' â'r twf cryfaf yn y categori gyda 23%.



— ” —

Yn 2022, roedd y sector yn cyflogi 1,500 o unigolion, cynnydd o 20% ar y 1250 yn 2021.

— “ —

Pobi

Roedd gan y sector pobi yng Nghymru drosiant o £457m yn 2023, cynnydd o 27% o'r £360m y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn dilyn tuedd barhaus ar i lawr a ddechreuodd yn 2020 ac a barhaodd tan 2022.

Roedd y sector yn cyflogi 6,000 o unigolion yn 2022, i fyny o 5,000 yn 2021, cynnydd o 20%. Roedd 82% o'r rhai a gyflogir yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn (FTE) gostyngiad o'r 90% y flwyddyn flaenorol.

Yn 2023 roedd 182 o unedau busnes yn y sector, cynnydd ar y 176 uned o'r flwyddyn flaenorol. Roedd 73% o'r unedau busnes yn y categori Micro ac yn cyflogi llai na 10 unigolyn, cynnydd bach o 1% o'r flwyddyn flaenorol.

Y cyflog canolrifol ar gyfer y sector yn 2023 oedd £22,582, cynnydd o 9% yng ngwerth 2022 sef £20,691. Cynyddodd y cyflog ar draws y DU hefyd, i £27,189 yn 2023, cynnydd o 10% o £24,819 yn 2022.

Roedd gwariant manwerthu yn sector pobi Cymru yn £583m yn 2023, cynnydd o 12% o'i gymharu â 2022. Roedd twf y farchnad gyfan ar draws Prydain ychydig yn fwy na Chymru ar 15%. Nwyddau boreol oedd â'r gyfran gwariant uchaf o'r farchnad yng Nghymru, sef 25%. Bara wedi'i rewi oedd â'r twf cryfaf yn y sector pobi, gyda gwariant manwerthu wedi cynyddu 46%, ond mae'r categori hwn yn parhau i fod yn fach o fewn y farchnad.



— ” —
Roedd gwariant manwerthu
yn sector pobi Cymru yn £583m
yn 2023, cynnydd o 12% o'i
gymharu â 2022.

— “ —

Manwerthu a Chyfanwerthu

Roedd gan y diwydiant manwerthu drosiant o £9.7bn yn 2023, i fyny 4% o £9.4bn yn 2022.

Roedd y sector manwerthu yn cyflogi 63,500 o unigolion yn 2022, gostyngiad o 12% o'r 72,000 a gyflogwyd yn y sector yn 2021. Roedd 26% o'r rhai a gyflogir yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn. Cyflog canolrifol y sector yn 2023 oedd £19,644, cynnydd mawr o 40% o'r £13,990 yn 2022. Cynyddodd cyflog canolrifol y sector ledled y DU gyfan 5% yn 2023, o £15,603 i £16,372.

Mae canran y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn y sector wedi gostwng yn raddol ers 2018 gan ddechrau ar 27% ac mae wedi aros yn gyson hyd at 2023. Ym Mhrydain, bu cynnydd bychan mewn gweithwyr FTE yn y sector, o 31% yn 2021 i 32% yn 2022.

Yn 2023 roedd 4,073 o unedau busnes yn y sector, sy'n gymharol gyson â'r 4,052 o unedau busnes yn 2022. Roedd 71% o'r unedau yn y sector yn y categori Micro yn 2023, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Cyfanswm y gwariant manwerthu ar nwyddau groser oedd £6.9bn yn 2022, gan gynyddu 8%, o £6.4bn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwelwyd cynnydd tebyg ar lefel Prydain gyfan hefyd, ar gyfradd o 9%, o £132bn i £144bn.

Roedd Tesco yn cyfrif am 28% o gyfanswm y gwariant yng Nghymru yn ystod 2023, y gyfran fwyaf o blith yr holl archfarchnadoedd, gan ostwng ei chyfran 0.3% o 2022. Dilynir Tesco gan Asda (14%), Aldi (9%), Morrisons (8%), a Lidl (7%) mewn perthynas â chyfran o'r gwariant yng Nghymru.

Roedd gan y sector cyfanwerthu drosiant o £2.4bn yn 2023, cynnydd o 16% o'r £2.0bn yn 2022.

Roedd y sector cyfanwerthu yn cyflogi 6,500 o unigolion yn 2022, gostyngiad o 28% o'r 9,000 a gyflogwyd yn 2021. Roedd 79% o weithwyr y sector yn rhai FTE. Y cyflog canolrifol yn 2023 oedd £25,863, cynnydd o 5% ar werth 2022, sef £24,864. Ar draws y DU, cynyddodd cyflogau canolrifol y sector flwyddyn ar ôl blwyddyn hefyd, ar gyfradd o 11% o £26,291 yn 2022 i £29,073 yn 2023.



— ” —

Y cyflog canolrifol yn 2023 oedd £25,863, cynnydd o 5% ar werth 2022, sef £24,864

— “ —

Arlwyo

Mae'r sector arlwyo yn cynnwys yr holl arlwyo dibreswyl gan gynnwys bwytaï a chaffis, gwasanaethau bwyd, arlwywyr symudol, cludfwydydd, ac arlwyo ar gyfer digwyddiadau.

Roedd gan y sector drosiant o £2.8bn yn 2023, cynnydd sylweddol o 21% o'r £2.3bn yn 2022.

Roedd y sector yn cyflogi 90,500 o unigolion yn 2022, cynnydd o 10% o gymharu ag 82,500 yn 2021. Roedd 37% o'r rhai a gyflogir yn y sector yn gweithio cyfwerth ag amser llawn. Cyflog canolrifol y sector oedd £11,004 yn 2023, gostyngiad o 3% o'r £11,349 yn 2022. Gostyngodd cyflogau canolrifol ar lefel y DU hefyd, o £13,881 i £13,648 (gostyngiad o 2%) yn yr un cyfnod.

Yn 2023 roedd 9,396 o unedau busnes yn y sector, cynnydd o 1% o'i gymharu â 2022, pan oedd 9,288 o unedau. Cafodd 75% o'r unedau busnes yn y sector eu dosbarthu fel rhai Micro yn 2022, yn cyflogi llai na 10 o bobl, lefel debyg i 2022.

Yn ôl yr Arolwg Costau Byw a Bwyd, roedd pobl Cymru yn gwario £21.60 yr wythnos ar gyfartaledd ar wasanaethau arlwyo (bwytaï, prydau caffi, diodydd alcoholig oddi cartref a bwyd tecawêl) yn 2022, gostyngiad o'r £26.80 yn 2021. Dyma'r isaf o bedair gwlad y DU, gyda'r Alban nesaf ar £23.80 yr wythnos.



— ” —

Roedd gan y sector drosiant o £2.8bn yn 2023, cynnydd sylweddol o 21% o'r £2.3bn yn 2022.


— “ —

Atodiad A: Diwydiannau Bwyd a Diod Cymru – Ystadegau ychwanegol

Trosiant Bwyd a Diod Cymru, Unedau Lleol a GVA o'i gymharu â'r DU

Metrig	Cymru	Y DU	Cymru fel % o'r DU
Y Sector Sylfaen Bwyd			
Trosiant 2023	£9.3bn	£245.0bn	3.9%
Unedau Busnes 2023	1,687	41,715	4.0%
GVA 2022	£2.4bn	£56.1bn	4.2%
Y Gadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod			
Trosiant 2023	£24.6bn	£588.0bn	4.2%
Unedau lleol 2023	28,678	471,420	6.1%
GVA 2022	£7.0bn	£166.1bn	4.2%
Y Sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod			
Trosiant 2023	£6.0bn	£112.9bn	5.3%
Unedau lleol 2023	681	14,300	4.8%
GVA 2022	£1.7bn	£34.0bn	5.0%

Cyflogaeth yn ôl is-sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru, 2022



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Arolwg o'r Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth (BRES). Mae'r categori 'Sectorau sy'n weddill' yn cynnwys Bwyd Parod Anifeiliaid, Ffrwythau a Llysiau, a Physgod a Chramenogion.

Y Sector Sylfaen Bwyd: Twf Trosiant 2019–2023

Blwyddyn	Cymru		
	Trosiant	Twf Trosiant	Twf Trosiant %
2016	£7.7bn	£0.63bn	8.9%
2017	£7.4bn	£-0.26bn	-3.4%
2018	£7.5bn	£0.13bn	1.8%
2019	£8.2bn	£0.64bn	8.5%
2020	£7.9bn	£-0.27bn	-3.2%
2021	£8.5bn	£0.56bn	7.0%
2022	£8.1bn	£-0.4bn	-4.7%
2023	£9.3bn	£1.21bn	14.9%

Y DU		
Trosiant	Twf Trosiant	Twf Trosiant %
£219.8bn	£2.15bn	1.0%
£220.2bn	£0.47bn	0.2%
£223.7bn	£3.44bn	1.6%
£228.6bn	£4.93bn	2.2%
£232.7bn	£4.11bn	1.8%
£233.6bn	£0.88bn	0.4%
£230.4bn	£-3.19bn	-1.4%
£245bn	£14.57bn	6.3%

Y Gadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod: Twf Trosiant 2019–2023

Blwyddyn	Cymru		
	Trosiant	Twf Trosiant	Twf Trosiant %
2016	£21.1bn	£0.39bn	1.9%
2017	£20.8bn	£-0.32bn	-1.5%
2018	£21.3bn	£0.56bn	2.7%
2019	£22.1bn	£0.76bn	3.6%
2020	£22.4bn	£0.27bn	1.2%
2021	£23bn	£0.64bn	2.9%
2022	£22.3bn	£-0.69bn	-3.0%
2023	£24.6bn	£2.29bn	10.2%

Y DU		
Trosiant	Twf Trosiant	Twf Trosiant %
£516.2bn	£1.14bn	0.2%
£520.3bn	£4.18bn	0.8%
£538.2bn	£17.89bn	3.4%
£548.9bn	£10.64bn	2.0%
£562.8bn	£13.89bn	2.5%
£569.8bn	£7.08bn	1.3%
£553.6bn	£-16.29bn	-2.9%
£588bn	£34.42bn	6.2%

Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod: Twf Trosiant 2019–2023

Blwyddyn	Cymru		
	Trosiant	Twf Trosiant	Twf Trosiant %
2016	£4.8bn	£0.68bn	16.4%
2017	£4.6bn	£-0.22bn	-4.5%
2018	£4.8bn	£0.23bn	5.0%
2019	£5.2bn	£0.39bn	8.1%
2020	£4.9bn	£-0.39bn	-7.4%
2021	£5.3bn	£0.5bn	10.2%
2022	£5.1bn	£-0.21bn	-4.0%
2023	£6bn	£0.88bn	17.1%

Y DU		
Trosiant	Twf Trosiant	Twf Trosiant %
£103.3bn	£1.47bn	1.4%
£98.1bn	£-5.15bn	-5.0%
£99.8bn	£1.65bn	1.7%
£104.5bn	£4.68bn	4.7%
£102.7bn	£-1.72bn	-1.6%
£104.2bn	£1.44bn	1.4%
£107.3bn	£3.12bn	3.0%
£112.9bn	£5.62bn	5.2%

Dadansoddiad o ddiwydiant y Sector Sylfaen Bwyd – busnesau sydd â'u pencadlys yng Nghymru

Blwyddyn	Band Maint Trosiant	Nifer Endidau	Nifer Cyflogedigion	Trosiant (£m)
2022	Total	1,331	22,606	4,568
	a. <£1m	1,028	3,336	216
	b. £1m - £2m	81	865	115
	c. £2m - £3m	36	448	91
	d. £3m - £4m	20	531	72
	e. £4m - £5m	28	809	125
	f. £5m - £10m	50	1,882	340
	g. >£10m	88	14,735	3,610
2023	Total	1,438	22,926	5,146
	a. <£1m	1,112	3,545	229
	b. £1m - £2m	107	1,040	153
	c. £2m - £3m	25	359	61
	d. £3m - £4m	28	573	98
	e. £4m - £5m	25	611	111
	f. £5m - £10m	52	1,732	357
	g. >£10m	89	15,066	4,138

Source: Welsh Government analysis of the Inter-Departmental Business Register (IDBR)

Atoðiað B: Nodiadau Methodolegol

Cafodd y data yn y gwerthusiad hwn eu crynhoi rhwng Ionawr 2023 a Gorffennaf 2024. Yr ystadegau a gyflwynir yn y gwerthusiad hwn oedd y rhai diweddaraf a oedd ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Methodoleg newydd ar gyfer cyfrifo GVA:

Amcangyfrifwyd yr holl werthoedd GVA a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn gan ddefnyddio set ddata Arolwg Busnes Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a **Cyfrifon Rhanbarthol GVA (wedi'u mantoli) yn ôl diwydiant**.

Mae cyfran y GVA ar lefel cod SIC 2 ddigid y rhoddir cyfrif amdano gan godau SIC 5 digid a ddefnyddir wrth ddiffinio sector bwyd penodol yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio data ABS. Er enghraifft, os defnyddir dau allan o ddeg, codau SIC 5 digid o fewn cod SIC lefel uwch 2 ddigid mewn diffiniad sector bwyd a bod y codau hyn yn cyfrif am 75% o gyfanswm gwerth y cod SIC 2 ddigid, yna 75% fyddai'r gyfran. Yna caiff y gyfran hon ei lluosio yn erbyn y GVA cod SIC 2 ddigid yn y tabl Cyfrifon Rhanbarthol, er mwyn amcangyfrif cyfran GVA sector bwyd penodol.

Mae'r codau SIC 5 digid a ddefnyddir i ddiffinio'r Sector Sylfaen Bwyd, yn y **Diffiniad o'r Sector Sylfaen Bwyd a Diod**. Oherwydd y newid hwn mewn methodoleg, nid oes modd cymharu'r gwerthoedd newydd hyn â'r blynyddoedd blaenorol a dylid eu defnyddio ar wahân i'w gilydd, oherwydd gallai unrhyw gynnydd neu ostyngiad fod o ganlyniad i'r newid mewn methodoleg ac nid newid gwirioneddol.

Diffinnir GVA Bwyd a Diod Cymru gan ddefnyddio'r codau SIC07 canlynol ac mae wedi newid o flynyddoedd blaenorol i ganolbwyntio ar y Sector Sylfaen Bwyd –

- 10:** Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd.
- 11-12:** Gweithgynhyrchu diodydd a chynhyrchion tybaco.
- 17:** Gweithgynhyrchu cynhyrchion papur.
- 22:** Gweithgynhyrchu cynhyrchion rwber a phlastig.
- 23:** Gweithgynhyrchu cynhyrchion mwynau anfetelaidd eraill.
- 25:** Gweithgynhyrchu cynhyrchion metel ffabrigedig.
- 28:** Gweithgynhyrchu peiriannau ac offer.
- 46:** Masnach gyfanwerthol.
- 82:** Gweithgareddau gweinyddu swyddfa a chymorth busnes.

Ffynonellau

Data	Ffynhonnell Data	Y flwyddyn ddiweddaraf a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad
Cyflogaeth	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES)	2022
Ystadegau Busnes (unedau lleol, nifer yr endidau, trosiant)	Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR).	2023
Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchodedig	Enwau bwyd a diod daearyddol gwarchodedig - GOV.UK (www.gov.uk)	2024
Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)	ONS ABS (Arolwg Busnes Blynyddol) Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (GVA) yn ôl diwydiant	2022
Enillion	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)	2023
Busnesau Cymeradwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd	Sefydliadau Bwyd Cymeradwy: https://data.food.gov.uk/catalog/datasets/1e61736a-2a1a-4c6a-b8b1-e45912ebc8e3	2024
Gwobrau Blas ar Gymru	https://greattasteawards.co.uk	2023
Gwariant Manwerthu	Data Kantar WorldPanel	2023
Gwerthoedd Allforio	Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Fasnach Ranbarthol mewn Nwyddau	2023
Gwerthoedd Allforio ar gyfer cig oen a chig eidion Cymru	Amcangyfrifon Hybu Cig Cymru (HCC)	2023
Gwariant cyfartalog ar wasanaethau arlwy	Arolwg Costau Byw a Bwyd	2022

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:
FoodDivisionalBusiness@gov.wales neu economic.stats@gov.wales